
# Bwletin y Farchnad HCC

Hydref 2020

**Yn ddiweddar, cyhoeddodd Defra ddata dros dro ar gyfer Arolwg o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth y DU, Mehefin 2020, a oedd yn datgelu fod cyfanswm nifer y gwartheg, defaid a moch wedi gostwng yn ystod y 12 mis diwethaf. Bydd Bwletin y farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y data.**

## GWARTHEG


Mae'r ystadegau dros dro gan Defra yn datgelu bod cyfanswm nifer y gwartheg a lloi yn y DU wedi gostwng 1.3% o'r naill flwyddyn i'r llall i 9.62 miliwn o anifeiliaid yn ystod mis Mehefin 2020. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu'r hyn a welwyd ym muches y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bellach mae'r fuches yn llai nag a fu erioed yn hanes yr Arolwg. Roedd y fuches fagu (cig eidion a llaeth) yn cyfrif am dros draean cyfanswm y gwartheg ac roedd yn dilyn patrwm y fuches yn gyffredinol, sef gostyngiad o 1.1% i 3.40 miliwn. Ym mis Mehefin 2020, roedd y fuches fagu gig eidion yn cynnwys 1.51 miliwn o wartheg (-1.0%) ac yn cyfrif am 45% o'r fuches fagu gyfan, tra bod y fuches fagu laeth yn cynnwys 1.85 miliwn o wartheg (-1.1%). Yn y cyd-destun hwn, buwch fagu yw buwch sydd wedi lloia.




Roedd y data ar gyfer gwartheg o wahanol oedrannau yn dangos gostyngiad cyffredinol yn y mwyafrif o gategorïau. Roedd nifer y gwartheg dwy flwydd oed a hŷn (gwryw a benyw heb loia) wedi gostwng 5.4% o'r naill flwyddyn i'r llall - gan awgrymu y gallai cyflenwad leihau yn ystod y misoedd nesaf. Roedd 1.4% yn llai o wartheg rhwng 13-24 mis oed o'r naill flwyddyn i'r llall oherwydd cafwyd gostyngiad sylweddol (-2.4%) yn nifer y gwartheg gwryw; roedd nifer y gwartheg benyw yn gymharol sefydlog, fodd bynnag. Ymhlith y gwartheg 12 mis oed neu iau, cafwyd cynnydd o 0.1% o'r naill flwyddyn i'r llall am fod nifer y rhai benyw o dan flwydd oed wedi cynyddu 1.0%. Mae niferoedd tebyg o wartheg ifanc yn awgrymu y gallai cyflenwad sefydlogi dros y 12-24 mis nesaf.


## DEFAID

Mae ystadegau dros dro Defra yn dangos bod cyfanswm nifer y defaid ac ŵyn yn y DU wedi gostwng 0.8% o'r naill flwyddyn i'r llall, i 33.3 miliwn o anifeiliaid ym mis Mehefin 2020. Er bod y cyfanswm ychydig yn llai nag a fu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'n uwch na'r hyn a gofnodwyd ar ddechrau'r ddegawd ddiwethaf (2010au) Y prif reswm am y gostyngiad oedd gostyngiad o 1.6% i 15.78 miliwn yn y ddiadell fagu. Roedd nifer y mamogiaid i fagu am y tro cyntaf yn debyg i'r hyn ydoedd y flwyddyn flaenorol (-0.7%) ac roedd yn cyfrif am oddeutu 16% o'r ddiadell fagu.





Er gwaethaf gostyngiad ym maint y ddiadell fagu, roedd nifer yr ŵyn ar 01 Mehefin 2020 (o dan flwydd oed) yn gymharol sefydlog mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol – gostyngiad o ddim ond 0.1% i 16.65 miliwn. Am fod nifer yr ŵyn a gafodd eu geni yn debyg i'r hyn ydoedd yn y flwyddyn flaenorol, mae'r ystadegau hyn yn awgrymu y bydd nifer yr ŵyn ar gael i'w lladd yn debyg i'r llynedd. Er y cafodd ychydig yn llai o ŵyn eu geni eleni, cafodd 6.5% yn fwy o ŵyn eu lladd yn lladd-dai'r DU rhwng misoedd Mehefin a Medi eleni nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2019. Mae hyn yn awgrymu fod cyfran uwch o ŵyn o blith y rhai a aned eleni wedi cael eu gwerthu eisoes ac y gallai fod llai o gyflenwad erbyn diwedd eleni a dechrau 2021.

**Nifer yr ŵyn ar 1 Mehefin 2020 (DU)**






## MOCH

Ar 01 Mehefin 2020, cyfanswm y moch yn y DU oedd 5.07 miliwn, sef dim ond 0.1% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Felly, mae niferoedd y moch wedi parhau i fod yn uwch na 5 miliwn am y drydedd flwyddyn yn olynol. Y prif reswm am y gostyngiad bach yn gyffredinol oedd y gostyngiad o 2.6% yn nifer yr hychod magu. Nifer y moch yn y genfaint fagu, sef 403,000, yw'r nifer leiaf yn ystadegau Defra. O blith y moch benyw yn y genfaint fagu, cafwyd gostyngiad o 1.3% yn nifer yr hychod a gostyngiad o 1.2% yn y banwesod torrog.



## Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr





**Cynnyrch Cig Eidion yn y DU**


## GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 201.1c/kg ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 24 Hydref, sef 7.0c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Yn debyg i'r wythnosau blaenorol, roedd y prisiau'n ansefydlog ond yn dal yn gryf. Mae'r pris cyfredol yn 25c yn uwch nag ydoedd flwyddyn yn ôl ac yn 16c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19:185.1c/kg). Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 24 Hydref, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 363.5c/kg, sef 0.2c yn is nag yn yr wythnos flaenorol a 46.9c yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y pris pwysau marw am heffrod yn 362.6c/kg (+1.1c ar yr wythnos flaenorol), teirw ifanc yn 352.0c/kg (+3.8c), a'r pris am fuchod difa yn 237.1c/kg (-1.3c).

Lladdwyd cyfanswm o 238,800 o wartheg yn lladd-dai'r DU ym mis Medi, sef 3.5% yn llai nag ym mis Medi 2019. Mae hyn yn golygu y cafodd 1.2% yn fwy o wartheg na'r llynedd (cyfanswm o 2.1 miliwn) eu lladd yn ystod naw mis cyntaf 2020. Cafwyd gostyngiad o 3.2% i 168,700 yng nghyfanswm y gwartheg dethol a laddwyd yn ystod y mis. O fewn y cyfanswm hwn, roedd y gostyngiad mwyaf (-8.8%) ymhlith y teirw ifainc. Lladdwyd 5.9% yn fwy o wartheg llawn-dwf nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Golygodd y gostyngiad cyffredinol yn y niferoedd a laddwyd fod yna ostyngiad o 1.3% i 77,500 tunnell yn y cig eidion a gynhyrchwyd ym mis Medi.

## Prisiau wyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru





**Cynnyrch Cig Defaid yn y DU**


## DEFAID

Mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol pwysau byw am ŵyn dethol wedi bod yn gostwng ychydig yn ystod yr wythnosau diwethaf, ond mae'n dal i fod yn uwch nag yn y gorffennol. Yn yr wythnos yn diweddu 24 Hydref, roedd y pris cyfartalog yn 187.2c/kg, sef 7.9c yn is nag oedd yn yr wythnos flaenorol. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, mae'r pris yn dal i fod yn 25c yn uwch nag oedd yn yr wythnos gyfatebol yn 2019, a 31.5c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 155.7c/kg). Pris cyfartalog y mamogiaid difa ym marchnadoedd da byw Cymru oedd £53.30 y ddafad, sef 10c yn uwch na'r wythnos flaenorol a thua £6.60 y famog yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd. Roedd y prisiau pwysau marw am ŵyn ym Mhrydain yn 441.1c/kg yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 24 Hydref (-0.5c nag yn yr wythnos flaenorol).

Cyfanswm yr holl ddefaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Medi oedd 1.3miliwn, sef 0.3% yn fwy nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Lladdwyd 1.6% yn fwy o ŵyn dethol na'r llynedd, ond lladdwyd 10.7% yn llai o famogiaid difa a hyrddod. Er y cafwyd cynnydd yn nifer yr ŵyn dethol a laddwyd yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r cyfanswm hyd yma eleni yn 0.8% yn is nag yn 2019. Roedd carcasau'r ŵyn dethol, ar gyfartaledd, yn 0.2kg yn ysgafnach nag yn 2019, ond roedd carcasau'r defaid difa yn 1.3kg yn drymach. Fel canlyniad, cynhyrchwyd 0.5% yn llai o gig defaid ym mis Medi nag yn y mis cyfatebol y llynedd.

## Pris cyfartalog moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




**Cynnyrch Porc yn y DU**

## MOCH

Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 161.5c/kg yn yr wythnos a daeth i ben ar 17 Hydref, sef yn debyg i'r wythnos flaenorol (-0.6c), a 2.9c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019. Mae prisiau wedi bod yn gostwng yn ystod yr wythnosau diwethaf – gostyngiad o 7.2c ers cofnodi'r pris uchaf ddechrau mis Gorffennaf. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu fod yr achosion o glwy Affricanaidd y moch yn yr Almaen yn cael effaith ar allforion. Roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg ym Mhrydain yn yr wythnos yn diweddu 17 Hydref yn £56.95 y mochyn (11.4% yn uwch o'r naill flwyddyn i'r llall) ac nad oedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg ar gael am yr wythnos.

Cyfanswm yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Medi oedd 932,800, sef 1.5% yn fwy nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Y prif reswm am y cynnydd hwn oedd bod 1.1% yn fwy o foch heb fagu a 16.3% yn fwy o hychod a baeddod na'r llynedd wedi cael eu ladd. Roedd carcasau'r moch heb fagu, ar gyfartaledd, sef 87.1kg, yn drymach nag erioed ar gyfer mis Medi (2.5kg yn drymach nag yn 2019). Oherwydd y cynnydd ym mhwysau'r carcasau a'r nifer a laddwyd, cynhyrchwyd 4.7% yn fwy o borc (cyfanswm o 82,600 tunnell) o'r naill flwyddyn i'r llall.